**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/GT/0897/13

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

25 Medi 2013

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu i gofnodi fy niolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu manwl ac ystyriol o'r Bil Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) a ddarllenais gyda diddordeb mawr. Byddwch wedi gweld o'ch gwaith yn casglu tystiolaeth, y diddordebau helaeth sydd gan bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol a byddwch wedi gwerthfawrogi eu hymrwymiad a'u brwdfrydedd tuag at yr hyn a wnânt. Roeddwn yn falch iawn eich bod wedi derbyn tystiolaeth gan ystod mor eang o randdeiliaid ac rwy'n siŵr bod gwneud hyn wedi bod yn gymorth mawr i ddeall pa mor bwysig yw'r ddeddfwriaeth hon a'r hyn y mae'r Llywodraeth yn dymuno'i gyflawni drwyddi.

Deallaf fod fy Swyddfa Breifat wedi cysylltu â chi i drefnu cyfarfod i drafod yr adroddiad ymhellach cyn y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Hydref, ond cyn hynny, roeddwn i eisiau rhannu fy ymatebion i nifer o'r argymhellion a wnaed, ac rwy'n ystyried gosod diwygiadau ger bron yn eu cylch fel a ganlyn:

- Eiriolaeth Annibynnol, y gwneuthum ddatganiad ysgrifenedig yn ei gylch ac y dynodwch chi eich cefnogaeth iddo (Argymhelliad 28);
- rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol (Argymhellion 31 a 32);
- newid y weithdrefn ddeddfwriaethol i uwchgadarnhaol mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad i uno byrddau diogelu oedolion a phlant rhanbarthol yn adran 117 o'r Bil (Argymhelliad 37);
- ychwanegu cyfeiriad at y gwasanaeth prawf fel Partner Bwrdd Diogelu statudol (Argymhelliad 39) cyn belled ag y bo modd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol;
- darpariaethau i gryfhau trefniadau ar gyfer cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth (Argymhelliad 50); a
- chynnwys 'cymhorthion ac addasiadau' yn adran 20(2) (Argymhelliad 59).

Fel y gwyddoch, cafwyd rhai galwadau pellach am ddiwygiadau, megis dirprwyo'r broses asesu (Argymhelliad 10). Yn yr achosion hyn, er ein bod yn cefnogi bwriad yr argymhellion, drwy ddadansoddi, daethom i'r casgliad fod y ddarpariaeth yn ddigonol ar gyfer cyflawni'r bwriadau a nodwyd gan y Pwyllgor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk


*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i gyflwyno tabl sy'n rhoi crynodeb o'r categorïau o ddiwygiadau rwy'n argymell eu gosod ger bron ar ran y Llywodraeth yn ystod Cyfnod 2. Roeddwn i eisiau gwneud hyn cyn i'r broses gychwyn yn ffurfiol ym mis Hydref er mwyn i chi gael cymaint o amser ag y bo modd i ystyried effaith bosibl y newidiadau hyn.

Gobeithio eich bod yn cytuno bod y diwygiadau uchod a'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y tabl a atodwyd yn ddarlun clir o'm hymrwymiad i wrando ar y Pwyllgor ac ar randdeiliaid.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn a'r tabl o fy ymatebion i'ch argymhellion at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yr eiddoch yn gywir



**Gwenda Thomas AC**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol